# PWYLLGOR IAITH, 27.06.13

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Gweno Glyn (penodwyd i lywyddu yn absenoldeb y Cadeirydd).

**Y Cynghorwyr:** Elwyn Edwards, Tom Ellis, Alan Jones Evans, Eric Merfyn Jones, Mair Rowlands, Gareth Thomas, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gruffydd Williams a Mandy Williams-Davies.

**Swyddogion:** Sion Huws (Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Aelod Ex-officio:** Y Cynghorydd Huw Edwards (Cadeirydd y Cyngor).

**Sylwedydd:** Y Cynghorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet – Gofal Cwsmer).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Alwyn Gruffydd, Dyfrig Jones a Liz Saville Roberts.

**1. ETHOL CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Liz Saville Roberts yn gadeirydd y pwyllgor hwn am 2013/14.**

Yn absenoldeb y Cadeirydd, penodwyd y Cynghorydd Gweno Glyn i lywyddu'r cyfarfod.

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

Gohiriwyd yr eitem hon hyd y cyfarfod nesaf oherwydd, petai'r pwyllgor yn dymuno ail-ethol y Cynghorydd Gweno Glyn i'r is-gadair, ni fyddai'n bosib' gwneud hynny yn y cyfarfod hwn, gan na chaiff person lywyddu dros ei etholiad ei hun.

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 16 Ebrill, 2013 fel rhai cywir, yn amodol ar nodi bod yna gonsensws i estyn gwahoddiad ffurfiol i'r Aelod Cabinet Gofal Cwsmer i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Iaith.

**5. ADRODDIAD MONITRO Y CYNLLUN IAITH GYMRAEG 2012/13**

Cyflwynwyd – adroddiad y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith yn gofyn i'r pwyllgor am eu sylwadau ac iddynt gymeradwyo Adroddiad Monitro y Cynllun Iaith Gymraeg 2012/13 cyn ei gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg.

Nodwyd y dylid cywiro'r pwynt bwled cyntaf yn y rhagair i nodi mai yng Ngorffennaf 2012, yn hytrach na 2013, y cyfarfu'r grŵp tasg a ffurfiwyd i lunio sylwadau ar y Safonau Iaith drafft.

Pwysleisiodd y Cadeirydd bwysigrwydd dilyn yr amcanion er mwyn gweld bod yna ddiweddariad.

Nodwyd ei bod yn galonogol gweld bod staff y Cyngor yn fodlon cyflwyno cwynion iaith mewnol gan fod hynny'n fanteisiol o safbwynt amlygu gwendidau a gwella trefniadau'r Cyngor o ran y Gymraeg.

Gan gyfeirio at Amcan CH2 – gofynnwyd am weld cynnwys y llythyr sy'n cael ei anfon at y sawl sy'n gwneud cais i newid enw tŷ o'r Gymraeg. Cytunodd y Rheolwr Cydraddoldeb ac Iaith i holi am gopi o'r llythyr.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r adroddiad a'i gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg.**

## 6. CYNLLUN IAITH GYMRAEG CYNGOR GWYNEDD

Cyflwynwyd – adroddiad y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith yn gofyn i'r pwyllgor gymeradwyo ymestyn cyfnod Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor hyd nes y daw'r safonau iaith i rym.

Pwysleisiodd y Cadeirydd bwysigrwydd sicrhau na cheir gostyngiad yn safonau uchel y Cyngor o ran y Gymraeg o ganlyniad i gyflwyno'r safonau newydd.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo ymestyn cyfnod Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor hyd nes y daw'r safonau iaith i rym.**

## 7. RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR IAITH

Cyflwynwyd – adroddiad y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith yn gofyn i'r pwyllgor roi ystyriaeth i gyfres o faterion y gellid eu rhoi ar raglen waith y pwyllgor, gan gynnwys materion a godwyd yn y cyfarfod diwethaf, gan hefyd awgrymu unrhyw faterion eraill yr hoffent eu cynnwys ar y rhaglen waith.

Pwysleisiodd y Cadeirydd bwysigrwydd sicrhau nad yw'r un materion yn codi dro ar ôl tro, flwyddyn ar ôl blwyddyn, a bod y pwyllgor yn llwyddo i ddatrys y problemau.

Holwyd sut y bwriedid llenwi'r bwlch yn sgil secondiad y Swyddog Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg i swydd arall am flwyddyn. Nododd yr Aelod Cabinet Gofal Cwsmer fod yna fwriad i swyddog neu swyddogion gymryd ei lle ac y byddai'n diweddaru'r aelodau pan fyddai'r sefyllfa'n fwy eglur. Pwysleisiodd hefyd na ellid gadael i'r safonau sy'n bodoli yn y Cyngor eisoes ddirywio o ganlyniad i golli'r swyddog presennol am flwyddyn.

Awgrymwyd bod y materion ar y rhaglen waith ddrafft yn cael eu gosod mewn trefn flaenoriaeth. Atebodd y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith y byddai'n trafod ymhellach gyda'r Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith ac yn cyflwyno adroddiad i'r cyfarfod nesaf yn awgrymu trefn flaenoriaeth ar gyfer yr eitemau.

Awgrymwyd y gallai'r pwyllgor edrych ar sut mae gofynion sgiliau iaith swydd yn cael eu gosod, beth yw'r amodau a sut mae hynny'n cael ei fonitro ayb.

Nodwyd bod angen edrych hefyd ar y gweithwyr hynny sy'n gallu siarad Cymraeg, ond sydd, oherwydd diffyg hyder, yn dewis siarad Saesneg gyda phobl sy'n siarad Cymraeg, gan edrych hefyd ar fagu hyder y staff o safbwynt llythyru ac e-bostio drwy gyfrwng y Gymraeg.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Gosod y materion a ganlyn ar y rhaglen waith gan adael y drws yn agored i'r aelodau ychwanegu materion newydd ar unrhyw adeg:-**

- **Adroddiad Monitro'r Cynllun Iaith**
- **Ymateb y Comisiynydd Iaith i'r Adroddiad Monitro**
- **Cwynion Iaith**
- **Ymateb i ymgynghoriad ar y Safonau Iaith arfaethedig**
- **Datblygu Safonau Iaith Cyngor Gwynedd**
- **Defnydd o'r Gymraeg gan drydydd parti sy'n defnyddio asedau'r cyngor**
- **Sgiliau iaith staff (amodau ynglŷn â dysgu'r Gymraeg ayb)**
- **Edrych ar y defnydd o'r Gymraeg oddi fewn i adrannau'r Cyngor yn eu tro**
- **Defnydd o'r Gymraeg yng Nghanolfannau Hamdden Bangor, Tywyn a Dolgellau**
- **Canolfannau Iaith - adroddiad cynnydd**
- **Materion i'w hystyried gan y Pwyllgor yn ei rôl ymgynghorol ar strategaethau hyrwyddo'r Iaith Gymraeg o fewn y sir**
- **Edrych ar sut mae gofynion sgiliau iaith swyddi'n cael eu gosod, beth yw'r amodau a sut mae hynny'n cael ei fonitro ayb, gan edrych hefyd ar sut i fagu hyder swyddogion yn eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith bob dydd.**

**(b) Gofyn i'r Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith gyflwyno adroddiad i'r cyfarfod nesaf yn awgrymu trefn flaenoriaeth ar gyfer yr eitemau hyn.**

**8. CWYNION IAITH**

Cyflwynwyd – adroddiad y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith yn manylu ar gŵyn iaith a ddaeth i law yn erbyn y Cyngor.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 11.05am.